# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 24 Medi 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(218)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**3 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5570 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi galwadau gan Gymdeithas Feddygol Prydain am ymchwiliad annibynnol llawn i wasanaethau'r GIG yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu ymchwiliad o'r fath cyn gynted â phosibl.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pryderon y BMA ynghylch anallu Llywodraeth Cymru i recriwtio a chadw gweithlu meddygol digonol yn y GIG.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at doriadau parhaus Llywodraeth y DU i wariant cyhoeddus a'r effaith ar fuddsoddi yn ein GIG.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi galwadau gan y BMA y dylid rhoi ystyriaeth i lefelau staffio diogel a gofynnol ar draws gofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol.

**4 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5571 Elin Jones (Ceredigion)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu y dylai'r berthynas rhwng cenhedloedd yr ynysoedd hyn newid yn dilyn y refferendwm ar annibyniaeth yn yr Alban;

2. Yn credu bod pobl Cymru yn sofran ac mai nhw ddylai benderfynu ar natur a chyflymder datblygiadau cyfansoddiadol yn y wlad hon; a

3. Yn galw ar y Prif Weinidog i ddechrau trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar unwaith i hwyluso'r broses o drosglwyddo cyfrifoldeb dros swyddogaethau i Gymru, er mwyn ail-gydbwyso pwerau rhwng y cenhedloedd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro):**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn croesawu'n fawr benderfyniad diamwys yr Alban i bleidleisio yn erbyn annibyniaeth ac yn edrych ymlaen at weithio gyda phob rhan o'r Deyrnas Unedig i greu undeb cryfach at y dyfodol.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg), Aled Roberts (Gogledd Cymru):**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

1. Yn croesawu'r ffaith fod pobl yr Alban wedi dewis aros yn aelod o deulu cenhedloedd y Deyrnas Unedig;

2. Yn credu bod yn rhaid inni hyrwyddo undeb newydd ar gyfer holl bobl y DU, gan gynnwys Cymru; a

3. Yn galw am weithredu ar fyrder Rannau 1 a 2 o'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru a sefydlu confensiwn cyfansoddiadol ar draws y DU i ddrafftio cynllun ar gyfer undeb newydd.

Mae Rhan 1 o adroddiad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru i'w gweld drwy ddilyn y linc hwn:
http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/files/2012/11/Welsh-WEB-main-report.pdf

Mae Rhan 2 o adroddiad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru i'w gweld drwy ddilyn y linc hwn:

http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/files/2014/03/Grymuso-a-Chyfrifoldeb-Pwerau-Deddfwriaethol-i-Gryfhau-Cymru.pdf

**5 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**

**NDM5574 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r ffaith yr oedd pobl 16 a 17 oed yn gallu pleidleisio yn y refferendwm diweddar ar annibyniaeth yr Alban, sef y tro cyntaf iddynt gael gwneud hynny mewn etholiad arwyddocaol yn y Deyrnas Unedig;

2. Yn cydnabod pwysigrwydd grymuso pobl ifanc yng Nghymru i ymgysylltu â gwleidyddiaeth a chyfrannu eu safbwyntiau a'u syniadau i helpu i lunio'r cymunedau lle y maent yn byw;

3. Yn nodi adroddiad y Comisiwn Etholiadol yn 2014 a ganfu nad yw 49% o bobl rhwng 16 a 17 oed yn y DU wedi cofrestru i bleidleisio ac yn credu bod angen gwneud mwy i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn democratiaeth; a

4. Yn croesawu'r camau sy'n cael eu cynnig drwy Fil Cofrestru Pleidleiswyr y DU i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth drwy rymuso swyddogion cofrestru etholiadol yng Nghymru i wella prosesau rhannu data a chynyddu nifer y bobl sydd wedi cofrestru o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae'r adroddiad 'The quality of the 2014 electoral registers in Great Britain' ar gael yma:

http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0005/169889/Completeness-and-accuracy-of-the-2014-electoral-registers-in-Great-Britain.pdf
(Saesneg yn unig)

Mae'r Bil Cofrestru Pleidleiswyr [HL] 2014-15 ar gael yma:

http://services.parliament.uk/bills/2014-15/voterregistration.html
(Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y gwaith y mae'r Ddraig Ffynci wedi'i wneud dros nifer o flynyddoedd i gynyddu cyfranogiad pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru adfer y cyllid hwn.

**Cyfnod Pleidleisio**

**6 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5573 Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**

Ansawdd mynediad - pwysigrwydd gofal plant o ran sicrhau bod teuluoedd incwm isel neu deuluoedd un rhiant yn gallu cael mynediad i'r gweithle

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 30 Medi 2014

# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad a gyflwynwyd ar 17 Medi 2014 i'w hateb ar 24 Medi 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

1. **Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru mewn perthynas â rheoli TB mewn gwartheg? OAQ(4)0189(NR)

2. **William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau incwm ffermydd yng Nghymru? OAQ(4)0190(NR)**R**

3. **Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar echdynnu adnoddau naturiol Cymru? OAQ(4)0195(NR)

4. **David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar ynni o ffynonellau nwy anghonfensiynol? OAQ(4)0194(NR)

5. **William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu prosesau treulio anaerobig yng Nghymru? OAQ(4)0191(NR)

6. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran mynd i'r afael â Jac y Neidiwr? OAQ(4)0183(NR)

7. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(4)0184(NR)

8. **Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol y parciau cenedlaethol? OAQ(4)0185(NR)

9. **Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar weithredu'r cynllun Glastir? OAQ(4)0198(NR)

10. **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae ef neu ei swyddogion wedi'u cael

ynghylch dichonoldeb cynhyrchu ynni o forlynnoedd llanw yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0188(NR)

11. **Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella ansawdd aer yng Nghymru? OAQ(4)0193(NR)

12. **Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â defnyddio maglau yng Nghymru?  OAQ(4)0192(NR)

13. **Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer pryfed peillio? OAQ(4)0197(NR)

14. **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y berthynas rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol? OAQ(4)0187(NR)

15. **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar dargedau gostwng allyriadau carbon Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0200(NR)**W**

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

1. **Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau Llywodraeth Cymru ar ofal plant yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0226(CTP)

2. **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gefnogi anghenion Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru? OAQ(4)0221(CTP)

3. **Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y bobl yng Nghymru nad oes ganddynt fynediad at gyfrif banc sylfaenol? OAQ(4)0224(CTP)

4. **William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Llywodraeth Cymru i hyrwyddo undebau credyd? OAQ(4)0225(CTP)

5. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ehangu'r cynllun Dechrau'n Deg? OAQ(4)0211(CTP)

6. **Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wella cysylltedd trafnidiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0212(CTP)

**7. Gwyn Price (Islwyn):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog gwirfoddoli yng nghymoedd y de? OAQ(4)0215(CTP)

**8. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu pobl hŷn sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru? OAQ(4)0217(CTP)

**9. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Beth yw cynlluniau'r Gweinidog ar gyfer cefnogi rhwydwaith Swyddfa'r Post? OAQ(4)0220(CTP)

**10. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y raddfa o brolemau dyled y mae teuluoedd yng Nghymru yn ei hwynebu? OAQ(4)0222(CTP)

**11. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnydd tuag at strategaeth Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant? OAQ(4)0219(CTP)

**12. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brosiectau adfywio yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)0214(CTP)

**13. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith anghydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau ar dlodi yng Nghymru? OAQ(4)0213(CTP)

**14. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo cynhwysiant ariannol? OAQ(4)0216(CTP)

**15. David Rees (Aberafan):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth mewn perthynas â dyraniadau cyllideb i'r trydydd sector? OAQ(4)0218(CTP)